# CRYNODEB CYFARFOD

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfod Nos Fawrth, Tachwedd 12fed 2024 am 8.00 o’r gloch yn Neuadd Parc.

Presennol: Rhys Richards (is-gadeirydd), Euros Puw, Arwel Davies, Geraint Jones, Rhys Jones a Huw Edwards
Ymddiheuriadau: Huw Charles, Catrin Roberts, Gwynfryn Williams a’r Cyng. Elwyn Edwards.

Yn absenoldeb Huw Charles, cytunodd Rhys Richards i gadeirio’r cyfarfod.

i) Darllen a chadarnhau’r Cofnodion (Hydref 8fed 2024) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant –**Dim.**

<u>iii) Materion yn codi o’r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i’r materion o’r cyfarfod diwethaf.
b) Cyflenwad nwyddau ar gyfer y difibs lleol – **roedd y clerc wedi derbyn cadarnhad gan y swyddog lleol na fyddant yn cyflenwi nwyddau am ddim o hyn ymlaen. Cytunwyd yn unfrydol i ychwanegu arian yn y gyllideb ar gyfer hyn.**

## <u>iv) Gohebiaeth</u>

<u>a) Un Llais Cymru.</u>
i) Nodyn Datblygu Ymarfer 9 – Cylch Perwyl ar gyfer Cyfarfodydd Cynghorau.
ii) Cytundeb Tâl ar gyfer 2024-25 – **trafodwyd gyda’r materion ariannol isod.**
iii) Model Reoliadau Ariannol 2024 – **Mabwysiadwyd.**
iv) Amserlen Flynyddol o Weithredoedd Ariannol.

<u>b) Amrywiol.</u>
i) Triathlon Y Bala – cais am adborth.
ii) Llywodraeth Cymru - Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-2026.
iii) Cyngor Cymuned Llanystumdwy - cynnig i gymeradwyo Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. **Cefnogwyd.**
iv) Grŵp Achub Plas Tan y Bwlch – cytunwyd i gefnogi cais y grŵp ac anfon llythyr i’r Parc Cenedlaethol yn gofyn iddynt oedi eu penderfyniad i werthu Plas Tan y Bwlch.

## <u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>
Ni chyflwynwyd unrhyw gais cynllunio.

## <u>vi) Materion Ariannol</u>
<u>a) Llywodraeth Cymru.</u>
i) Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2025-26.

<u>b) Adolygu cyflog a chostau’r clerc.</u>
**Adolygwyd cyflog y clerc a chytunwyd i gynyddu’r nifer o oriau a’r cyflog o fis Ebrill 2025.**

<u>c) Cyllideb a Praesept 2025/26.</u>
**i) Cytunwyd i ychwanegu arian ar gyfer cyflenwi nwyddau i’r difibs, cynyddu’r arian ar gyfer y wefan a chyflog y clerc a lleihau’r gwariant ar gyfer, hyfforddiant, costau cynghorwyr, ffioedd archwilio a chynnal a chadw asedau. Amcangyfrif y bydd £70 o ad-daliad TAW.**
**ii) Cytunwyd i gynyddu’r Praesept i £4,750 ar gyfer 2025-26 er mwyn sicrhau fod 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn ac arian i gefnogi prosiectau lleol os bydd angen.**

<u>ch) Taliadau – **awdurdodwyd.**</u>
i) Cyflog a chostau’r clerc (Hyd-Rhag)
ii) TWE
iii) Hannah Gwenllian Web Designs (Gwefan)
iv) ICO

d) Cyfraniadau Ariannol

i) Eisteddfod Talybont, Ambiwlans Awyr Cymru. **Cytunwyd i gyfrannu £150 i Eisteddfod Talybont rwan ac i drafod cais yr Ambiwlans Awyr gyda gweddill o'r ceisiadau ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.

**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH CHWEFROR 11eg YN NEUADD PARC.**